# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Dyddiad Cyhoeddi: 27 Mehefin 2018**

**STATWS: CYDYMFFURFIO**

**CATEGORI: ANSAWDD A DIOGELWCH**

**Teitl:** Sicrhau'r Cydbwysedd Cywir yng Nghymru – Cefnogi ansawdd a diogelwch i ddeintyddion sydd wedi cofrestru fel rhan o broses sicrwydd

**Dyddiad Adolygu**
Ebrill 2021

**I'w Weithredu gan:**
Byrddau Iechyd

**Angen gweithredu erbyn:**
Ar unwaith

**Anfonwyd gan:**
Karin Phillips, Dirprwy Gyfarwyddwr Gofal Sylfaenol
Colette Bridgman, Prif Swyddog Deintyddol Cymru

**Enw(au) Cyswllt yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:**
Lisa Howells
Dirprwy Brif Swyddog Deintyddol
Lisa.Howells4@gov.wales
Ffôn: 0300 025 1482

**Dogfen(nau) amgaeedig:** Atodiadau 1 i 6

**Sicrhau'r Cydbwysedd Cywir yng Nghymru**

**Cefnogi ansawdd a diogelwch i ddeintyddion sydd wedi cofrestru fel rhan o broses sicrwydd**

Mae'r Cylchlythyr Iechyd hwn yn disodli Cylchlythyr Iechyd Cymru (2005) 086 – *Guidance for local Health Boards on Local Procedures for General Dental Practitioners and Dental Care Professionals whose performance gives rise to concern* (Saesneg yn unig) a'r canllawiau dilynol a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2012 – *Updated Guidance on a Model Operating Procedure for the Management of Dentists on the Dental Performers List whose Performance is of Concern* (Saesneg yn unig). Mae wedi'i ddatblygu gyda chyfraniad grŵp amlbroffesiwn o bob cwr o Gymru.

Mae i'w ddefnyddio'n bennaf gan fyrddau iechyd, ond rydym yn gobeithio y bydd yn ddefnyddiol hefyd i dimau deintyddol, Pwyllgorau Deintyddol Lleol a sefydliadau eraill megis Cymdeithas Ddeintyddol Prydain, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), cynghorau iechyd cymuned, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

*(Yn dilyn sefydlu AaGIC ar 1 Ebrill 2018, bydd y Ddeoniaeth Ddeintyddol ym Mhrifysgol Caerdydd yn dod yn rhan o AaGIC ym mis Hydref 2018. Drwy gydol y Cylchlythyr Iechyd hwn, mae cyfeiriadau at AaGIC yn cynnwys y Ddeoniaeth Ddeintyddol cyn iddi gael ei hymgorffori yn AaGIC).*

Mae'r Cylchlythyr Iechyd yn berthnasol i ddeintyddion sy'n darparu gwasanaethau'r GIG mewn practisau deintyddol cyffredinol (naill ai mewn practisau sy'n trin cleifion y GIG yn unig neu bractisau sy'n trin cleifion preifat yn ogystal â chleifion y GIG). Mae cyfeiriadau at "y deintydd dan sylw" yn cynnwys Cyflawnydd, Darparwr neu ddeintydd cyswllt a gyflogir. Gellir cymhwyso'r egwyddorion pan gaiff pryderon eu codi am weithwyr gofal deintyddol proffesiynol sy'n gweithio mewn practisau sydd â chontractau â'r GIG neu bractisau preifat. Pan fo'n briodol, mae cyfeiriadau hefyd at ddeintyddion sy'n gweithio mewn practisau hollol breifat.

**Cyflwyniad**

Yn *Shifting the balance: a better, fairer system of regulation* (Saesneg yn unig), mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cydnabod, pan gaiff pryderon eu codi am ddeintydd, fod y pwyslais ar hyn o bryd ar orfodi ar ôl i bethau fynd o chwith. Mae'n nodi hefyd y dylai dulliau rheoleiddio da fod yn gymesur, yn atebol, yn gyson, yn dryloyw ac wedi'u targedu.

Mae'r Cylchlythyr Iechyd hwn yn nodi'r model rydym am ei fabwysiadu yng Nghymru i sicrhau bod cleifion, y cyhoedd, y proffesiwn deintyddol, byrddau iechyd a'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn hyderus y gellir nodi perfformiad

deintyddol sy'n peri pryder yn brydlon ac ymdrin ag ef mewn ffordd gymesur er mwyn diogelu cleifion a chefnogi deintyddion sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Mae'r Cylchlythyr Iechyd yn disgrifio proses sy'n gofyn i fyrddau iechyd weithredu'n brydlon pan gaiff pryderon eu codi ac i ymateb mewn ffordd gymesur. Mae hefyd yn disgrifio sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol er mwyn sefydlu system ar gyfer ailgyfeirio, ailberchnogi a rhannu gwybodaeth pan gaiff pryderon eu codi'n uniongyrchol gydag ef.

Rydym am gael system sy'n:

- Ysgogi diwylliant o ymholi a dysgu ar y cyd er mwyn lleihau'r risg y bydd yr un mater yn effeithio ar gleifion a deintyddion eraill sydd wedi cofrestru;
- Nodi deintyddion sydd wedi cofrestru a all fod yn dechrau cael problemau ac a allai elwa ar ymyrraeth gynnar a chymorth;
- Hyrwyddo ymdrechion i ddatrys yn lleol er mwyn mynd i'r afael â phryderon yn brydlon a lleihau'r effaith ar gleifion a deintyddion sydd wedi cofrestru;
- Nodi materion difrifol a ddylai gael eu cyfeirio at y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn brydlon er mwyn iddo ymdrin â nhw'n briodol;
- Sicrhau nad yw'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ymdrin ag unrhyw achosion heblaw'r rhai y dylai ymdrin â nhw.

Mae Atodiad 1 yn disgrifio pryderon ynghylch perfformiad ac achosion posibl y rhain.

## 1. Gweithio gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi datblygu menter o'r enw NHS Concerns lle mae pryderon a gaiff eu codi'n uniongyrchol gydag ef yn cael eu hanfon i'r wlad dan sylw os ystyrir ei bod yn ddiogel ac yn briodol gwneud hynny er mwyn i'r wlad geisio eu datrys yn lleol.

Pan gaiff pryderon eu codi'n uniongyrchol gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, mae'n cynghori, yn y rhan fwyaf o achosion, mai'r ffordd orau o ddatrys eich cwyn yw ei hanfon yn uniongyrchol i'r lle y cawsoch eich trin, er enghraifft os ydych am iddo esbonio neu ymddiheuro. Yn *Shifting the balance: a better, fairer system of dental regulation*, mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn nodi ei gynigion ar gyfer system sy'n ymdrin â materion yn y lle cywir ac sy'n sicrhau'r canlyniadau cywir i gleifion a'r cyhoedd am y gost gywir ac o fewn amserlen dderbyniol.

Gan ddefnyddio'r system hon, mae Llywodraeth Cymru am i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ailgyfeirio neu anfon pryderon penodol yn ôl i Gymru. Yna, gall pryderon am ddeintydd sy'n rhoi gofal y GIG gael sylw gan fyrddau iechyd yn unol â Gweithio i Wella neu gan AGIC os yw'r pryder yn ymwneud â gofal a roddwyd gan ddeintydd sy'n gweithio'n gyfan gwbl mewn practis preifat.

Gellir ailgyfeirio neu anfon yr achosion hynny yn ôl:

- pan fo'r deintydd sydd wedi cofrestru wedi methu ag esbonio'r costau am driniaeth yn ddigonol;
- os mai cyfathrebu gwael yw'r prif bryder;
- os oes tystiolaeth o ddelio â chwynion yn annigonol;
- os oes pryderon lefel isel ynghylch ymddygiad neu agwedd ac os nad oes unrhyw wahaniaethu na thrais nac unrhyw oedolion na phlant sy'n agored i niwed dan sylw;
- os oes tystiolaeth o fân broblemau sy'n ymwneud â chadw cofnodion;
- os oes problemau wrth geisio cael gafael ar ofal deintyddol y GIG oherwydd gallu contractiol;
- sy'n ymwneud â digwyddiad clinigol unigol lle nad oes tystiolaeth o ailadrodd na phatrwm ymddwyn parhaus, a lle nad yw'r achos mor ddifrifol fel ei fod yn peri pryder ynghylch addasrwydd i ymarfer (rhoddir ystyriaeth i'r dyddiad(au) y rhoddwyd y driniaeth a ph'un a yw'n rhywbeth hanesyddol neu ddiweddar);
- os oes sawl pryder lefel isel ynghylch sawl apwyntiad, neu os oes nifer o gwynion unigol am faterion tebyg nad ydynt yn peri pryder ynghylch addasrwydd i ymarfer.

Caiff y ffordd y bydd y meini prawf yn cael eu cymhwyso ei hystyried yn fanwl, a gall materion megis ymateb y deintydd a'r ymwybyddiaeth a ddangoswyd ar ôl i bryder gael ei godi gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol gael eu hystyried hefyd.

Bydd byrddau iechyd yn delio â phryderon a gaiff eu hanfon yn ôl yn yr un ffordd â phryderon sy'n cael eu codi'n uniongyrchol gyda nhw. Ar ôl ymdrin â'r pryder, gall y bwrdd iechyd benderfynu bod angen cyfeirio'r deintydd dan sylw yn ôl at y Cyngor Deintyddol Cyffredinol os credir bod y mater yn ddigon difrifol.

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn nodi pa faterion nad yw'n ymdrin â nhw yn:
https://www.gdc-uk.org/patients/raising-a-concern/who-can-help

Mae Atodiad 2 yn rhoi gwybodaeth am y canlynol:

- ymdrin â phryderon ynghylch gofal deintyddol preifat;
- deintyddion sydd wedi cofrestru sy'n pryderu am ddeintyddion eraill sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol

## 2. Enghreifftiau o faterion y gellir eu cyfeirio at Bwyllgor Gorchmynion Interim y Cyngor Deintyddol Cyffredinol

Mae Pwyllgor Gorchmynion Interim y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ymdrin yn bennaf â deintyddion sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol pan fo'n angenrheidiol diogelu'r cyhoedd neu lle mae risg wirioneddol o niwed sylweddol i iechyd, diogelwch neu les cleifion ac eraill os cânt ymarfer heb gyfyngiad.

Byddwn yn gweithio gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a rhanddeiliaid er mwyn cytuno ar enghreifftiau o faterion y gellir eu cyfeirio at ei Bwyllgor Gorchmynion Interim. Bydd y rhain yn helpu byrddau iechyd i benderfynu pryd i gyfeirio deintyddion sydd wedi cofrestru at y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Mae Atodiad 3 yn cynnwys enghreifftiau o faterion y gellir eu cyfeirio at ei Bwyllgor Gorchmynion Interim.

## 3. Dull gweithredu cyson

<u>Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio cysoni'r prosesau y mae byrddau iechyd a sefydliadau eraill yn eu defnyddio ledled Cymru wrth weithio gyda deintyddion pan gaiff pryderon eu codi.</u>

Bydd y Cylchlythyr Iechyd hwn yn helpu byrddau iechyd a sefydliadau eraill i wneud y canlynol:

- Canolbwyntio ar arfer da, ansawdd a diogelwch;
- Sicrhau dulliau llywodraethu da a chywirdeb;
- Diogelu cleifion a thimau deintyddol a sicrhau eu lles;
- Ymateb yn brydlon i bryderon a godir;
- Darparu fframwaith strwythuredig ar gyfer ymchwilio i bryderon;
- Sicrhau bod unrhyw ymchwiliad yn agored, yn dryloyw, yn gymesur ac yn deg i bawb dan sylw;
- Cynnal asesiad cywir a chyflwyno adroddiad sy'n sail i benderfyniadau a chamau gweithredu priodol.

Mae'n ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd a sefydliadau eraill wneud y canlynol:

- Helpu deintyddion yn briodol i wneud y "peth iawn";
- Nodi a mynd i'r afael â pherfformiad anfoddhaol yn gynnar;

- Annog y practis i geisio datrys yn gynnar;
- Ymdrin â phryderon yn briodol pan gânt eu huwchgyfeirio i lefel bwrdd iechyd;
- Ymdrin yn briodol â pherfformiad sy'n peryglu diogelwch cleifion neu sy'n effeithio'n andwyol ar ansawdd, diogelwch a chywirdeb;
- Casglu a rhannu adroddiadau dienw er mwyn dysgu o themâu a materion a nodwyd wrth ddelio â phryderon, cwynion a digwyddiadau.

I ategu hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu Pwyllgor Cenedlaethol i weithio gyda byrddau iechyd, sefydliadau eraill a'r proffesiwn deintyddol. Grŵp arbenigol fydd y Pwyllgor, a bydd yn hyrwyddo dull gweithredu cyson o fewn proses sicrwydd.

Bydd y Pwyllgor yn:

- Hyrwyddo diogelwch cleifion a'r cyhoedd o fewn proses sicrwydd;
- Cael gwybodaeth ddienw gan fyrddau iechyd a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru am nifer y pryderon a godwyd a'u math;
- Cefnogi ymdrechion i ddatrys yn lleol;
- Nodi enghreifftiau o arfer da wrth ymdrin â phryderon;
- Nodi'r heriau sy'n gysylltiedig ag ymdrin â phryderon;
- Nodi tueddiadau a themâu sy'n gysylltiedig â phryderon er mwyn cefnogi dysgu ar y cyd ledled Cymru ee defnyddio canlyniadau'r Cynllun Sicrhau Ansawdd;
- Ffynhonnell o arbenigedd wrth ymdrin â phryderon yng Nghymru;
- Datblygu negeseuon templed i Gymru gyfan ar gyfer y gweithdrefnau anffurfiol
- Asesu effaith y Cylchlythyr Iechyd.

Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn a bydd rhanddeiliaid yn cynnwys:

Llywodraeth Cymru
Tîm Gweithredol Gofal Sylfaenol y bwrdd iechyd
Cynghorwyr Practis Deintyddol
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Gwasanaeth Asesu Clinigol Cenedlaethol (NCAS)
AaGIC
AGIC
Cyngor Deintyddol Cyffredinol
Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

Cyfarwyddwyr Meddygol/Cyfarwyddwyr Meddygol Cyswllt/Cyfarwyddwyr Deintyddol Cyswllt
Gwasanaethau Deintyddol y GIG
Pwyllgor Deintyddol Cymru

## *4.* Egwyddorion

Mae'r egwyddorion yn y Cylchlythyr Iechyd hwn yn unol â'r canlynol:

- Polisi Llywodraeth Cymru yn *Gweithio i Wella*;
- Polisïau'r Cyngor fel y'u hamlinellir yn *Shifting the balance:a better, fairer system of dental regulation*;
- Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y tîm deintyddol – https://www.gdc-uk.org/professionals/standards/team;
- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) (fe'u cyhoeddwyd yn wreiddiol yn 2004, ac mae sawl diwygiad wedi bod ers hynny);
- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Cymru) 2006 (Atodlen 3, Rhan 6) sy'n cynnwys y gofyniad i bractisau roi gweithdrefn gwyno ar waith i ymdrin ag unrhyw gwynion. Ar gyfer timau deintyddol y GIG yng Nghymru, mae hyn yn golygu defnyddio Gweithio i Wella;
- system arolygu practisau deintyddol AGIC.

Mae'r Cylchlythyr Iechyd hwn yn cyfeirio at "bryderon" drwyddi draw. Mae Gwella i Weithio yn diffinio pryderon yn fras fel datganiadau o anfoddhad neu gwynion gan gleifion ac adroddiadau gan staff ar ddigwyddiadau andwyol. Gellir codi pryder yn ysgrifenedig neu ar lafar, a gall pryderon ymwneud â pherfformiad.

Os yw'r pryder yn ymwneud â phractis neu gontract, yn hytrach na deintydd unigol, ee cyfarpar, protocolau ymarfer neu faterion sy'n ymwneud â pholisi, yna bydd y mater yn cael sylw o dan y rheoliadau sy'n ymwneud â chontractau'r GIG.

Mae *Upholding Professional Standards in Wales* (Saesneg yn unig) yn gymwys i ddeintyddion a gaiff eu cyflogi gan fyrddau iechyd. Mae deintyddion a gaiff eu cyflogi'n uniongyrchol yn cynnwys y rhai sy'n gweithio yn y gwasanaeth deintyddol cymunedol a'r gwasanaeth deintyddol yn yr ysbyty.

Mae amrywiaeth eang o systemau sicrwydd a chymorth ar waith yng Nghymru i helpu deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol i gynnal safonau

uchel o ofal a sicrhau perfformiad diogel. Caiff y rhain eu disgrifio yn *Sicrwydd ansawdd a diogelwch yng ngwasanaethau deintyddol cyffredinol yng Nghymru:*

https://gov.wales/topics/health/professionals/dental/publication/information/safety/?skip=1&lang=cy

Wrth ddatblygu'r Cylchlythyr Iechyd newydd hwn, rydym wedi defnyddio arbenigedd yng Nghymru er mwyn sicrhau dull gweithredu integredig mewn practisau deintyddol, mewn byrddau iechyd ac yn adran ôl-raddedig Deintyddiaeth Deoniaeth Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd.

## 5. Ymdrechion i ddatrys yn lleol

Gall pryderon – a chwynion ynghylch gofal deintyddol yn arbennig – beri gofid i gleifion a pheri i aelodau'r tîm deintyddol orbryderu. Pan fo'n bosibl, y peth gorau yw delio â phryderon yn brydlon ac yn effeithiol yn y practis er mwyn sicrhau nad ydynt yn gwaethygu.

Gall y claf godi pryder gyda'r practis deintyddol; y bwrdd iechyd; y cyngor iechyd cymuned; eiriolwr cleifion; neu'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Fel rheol, mae'n ddefnyddiol i'r tîm deintyddol ymdrin â'r pryder ar y cychwyn – gall gwneud hyn fynd i'r afael â'r pryder a datrys materion yn gyflym. Gall tîm y practis geisio cyngor tîm cwynion ei fwrdd iechyd i'w helpu i ddelio â'r gŵyn yn effeithiol.

Mae'n arfer da i gynnig cyfarfod â'r achwynydd. Mae cyfarfod yn rhoi'r cyfle i bawb dan sylw drafod y materion a gall arwain at eu datrys yn gyflym. Gall cyfarfod fod yn ddefnyddiol unrhyw bryd yn ystod y broses, ond gall fod yn arbennig o ddefnyddiol ar gam cynnar.

Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Cymru) 2006 yn cynnwys gwybodaeth fanwl am yr hyn sy'n ofynnol wrth ddelio â chwynion. Ar gyfer timau deintyddol y GIG yng Nghymru, mae hyn yn golygu defnyddio Gweithio i Wella. Nod Gweithio i Wella yw cynnig ffordd syml i gleifion (neu rywun sy'n perthyn iddynt/eu gofalwyr) godi pryderon am unrhyw agwedd ar eu gofal a sicrhau bod y pryderon hyn yn cael sylw'n brydlon ac yn briodol.

Mae angen i bractisau deintyddol sicrhau bod eu gweithdrefn gwyno yn cyd-fynd â Gweithio i Wella (yn enwedig o ran yr amserlen ar gyfer ymateb).

Os cysylltir â'r bwrdd iechyd ynghylch pryderon mwy cyffredinol am ddeintydd neu bractis deintyddol, gall y bwrdd iechyd benderfynu ymchwilio i'r pryder yn unol â gofynion Gweithio i Wella.

## 6. Dull gweithredu byrddau iechyd

Mae byrddau iechyd yn cael gwybodaeth am bractisau deintyddol cyffredinol o amrywiaeth o ffynonellau allanol a mewnol (gweler Atodiad 4 am fanylion).

Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud ei orau i sicrhau bod pryderon yn rhai gwirioneddol, nid maleisus. Y bwrdd iechyd sy'n gyfrifol ar bob cam am ymdrin â phryderon am ddeintydd ar ei Restr Cyflawnwyr y GIG. Gall cwynion blinderus ac achwynwyr roi timau deintyddol dan bwysau mawr. Dylai byrddau iechyd helpu timau deintyddol i ymdrin â'r rhain pan gânt eu hysbysu amdanynt.

Mae byrddau iechyd hefyd yn gyfrifol am benderfynu pa gamau gweithredu i'w cymryd yn dilyn unrhyw ymchwiliad o dan y fframwaith rheoleiddio cytundebol a phroffesiynol.

Mae byrddau iechyd wedi sefydlu grwpiau ansawdd a diogelwch deintyddol (neu grwpiau cyfatebol) yn unol â llythyr y Prif Swyddog Deintyddol isod (Saesneg yn unig):
http://gov.wales/docs/phhs/publications/150820letteren.pdf

Mae gan y grwpiau hyn rôl hanfodol i'w chwarae wrth helpu byrddau iechyd i ymdrin â phryderon am ddeintyddion yn briodol.

Gall y grŵp fod yn ffynhonnell o gyngor proffesiynol, gan roi gwybodaeth i'r Bwrdd a'i helpu i fonitro ansawdd a diogelwch, cywirdeb a pherfformiad yn y gwasanaeth deintyddol cyffredinol/gwasanaeth deintyddol personol. Gall y grŵp hefyd helpu'r Cyfarwyddwr Meddygol, y Cyfarwyddwr Meddygol Cyswllt neu'r Cyfarwyddwr Deintyddol Cyswllt wrth ymdrin â phryderon. Os oes angen rhoi sylw i bryder ar frys, efallai na fydd yn ymarferol ymgynghori â'r grŵp ansawdd a diogelwch deintyddol llawn; yn yr achos hwn, gall grŵp cynghori sy'n cynnwys aelodau o'r grŵp ansawdd a diogelwch deintyddol roi cyngor.

Argymhellir byrddau iechyd yn gryf i benodi Cyfarwyddwr Meddygol Cyswllt neu Gyfarwyddwr Deintyddol Cyswllt sy'n glinigwr profiadol ac a all helpu'r Cyfarwyddwr Meddygol i ymdrin â deintyddion y mae eu perfformiad yn peri pryder.

Byrddau iechyd sy'n gyfrifol am gynnal cofnod cynhwysfawr o wybodaeth am bryderon. Dylid cadw'r wybodaeth yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd ar gadw cofnodion a chadw gwybodaeth.

Mewn rhai achosion, gall fod angen i'r bwrdd iechyd ganfod a yw'r deintydd dan sylw wedi gweithio i fyrddau iechyd eraill a ph'un a oes pryderon wedi cael eu godi gyda nhw.

*Ymarferwyr locwm*

Gall deintyddion weithio fel deintyddion lwcws mewn llawer o bractisau ac i nifer o fyrddau iechyd. Maent yn llai tebygol o ddod yn rhan o dîm y practis, a gall fod yn anodd nodi patrymau o ymarfer gwael neu ymarfer sy'n is na'r safon. Pan gaiff pryderon eu codi, mae dyletswydd ar fyrddau iechyd i ymdrin â'r pryder yn yr un ffordd ag y byddai'n ymdrin â phryderon am ddeintyddion eraill ar eu Rhestr Cyflawnwyr. Rhaid i ddeiliad contract y GIG sicrhau bod unrhyw ddeintydd sy'n gweithio fel deintydd locwm yn cael ei gysylltu â rhif y contract cyn gynted ag y bydd yn dechrau yn y practis. Mae deiliaid contract yn gyfrifol am sicrhau bod ymarferwyr locwm yn cael yr hyfforddiant cynefino

priodol i sicrhau eu bod yn deall y safonau gofal disgwyliedig a’r prosesau/protocolau lleol sydd ar waith i sicrhau ansawdd a diogelwch cleifion ee y weithdrefn gwyno.

*Rôl y Pwyllgor Deintyddol Lleol*

Mae'n ofynnol i fyrddau iechyd ymgynghori â'u Pwyllgor Deintyddol Lleol er mwyn sicrhau eu bod yn cymhwyso'r canllawiau hyn mewn ffordd deg a rhesymol. Fodd bynnag, rhaid sicrhau cleifion, y proffesiwn a byrddau iechyd nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau wrth ymgynghori â'r Pwyllgor Deintyddol Lleol. Nid yw hyn yn atal y Pwyllgor Deintyddol Lleol rhag rhoi cymorth fel "ffrind" i'r deintydd dan sylw unrhyw bryd yn ystod y broses.

*Rôl AaGIC*

Rhaid ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Addysg Ddeintyddol Ôl-raddedig, neu unigolyn enwebedig, yn gynnar os yw'r achos yn ymwneud â deintydd:

- sy'n cael hyfforddiant deintyddol sylfaenol;
- sy'n gweithio o dan drefniadau sy'n dilysu ei brofiad er mwyn ei gynnwys ar y Rhestr Cyflawnwyr (PLVE) neu drefniadau mentora; neu
- sydd wedi'i gynnwys ar y Rhestr Cyflawnwyr yn amodol.

Fodd bynnag, ni ddylai hyn effeithio ar allu'r bwrdd iechyd i roi mesurau ar waith er mwyn diogelu'r cyhoedd. Os bydd pryder yn debygol o gynnwys cyfeirio deintydd sydd wedi cofrestru at AaGIC am gymorth, mae'n ddefnyddiol ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Addysg Ddeintyddol Ôl-raddedig, neu unigolyn enwebedig, cyn gynted â phosibl yn ystod y broses. Fodd bynnag, bydd rhai achosion lle mae materion sy'n ymwneud â chyfrinachedd yn golygu nad oes modd gwneud hyn.

*Cymorth i ddeintyddion*

Mae gan y deintydd yr opsiwn i geisio cymorth ar bob cam fel y bo'n briodol. Dylai cymorth fod ar gael yn ardal pob bwrdd iechyd, a gall gael ei roi gan y Pwyllgor Deintyddol Lleol; Cymdeithas Ddeintyddol Prydain; sefydliad sy'n amddiffyn deintyddion; ffrind neu gydweithiwr.

*Rhannu pryderon*

Wrth wneud cais i gael ei gynnwys ar y Rhestr Cyflawnwyr Deintyddol, mae'n ofynnol i ddeintydd awdurdodi'r bwrdd iechyd lleol, i'r graddau sy'n angenrheidiol, i wneud cais i unrhyw gyflogwr neu gyn-gyflogwr, corff trwyddedu, rheoleiddio neu gorff arall yn y DU neu rywle arall am wybodaeth am ymchwiliad sy'n mynd rhagddo neu ymchwiliad lle mae'r canlyniad wedi bod yn andwyol. Dylai byrddau iechyd, wrth weithio gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, sicrhau bod y gwiriadau hyn yn cael eu gwneud cyn cynnwys y deintydd ar eu Rhestr.

## 7. Prosesau ar gyfer ymdrin â phryderon

Ni ddylai cwynion neu bryderon blaenorol a oedd yn ddi-sail neu heb eu profi fod yn rhan o unrhyw dystiolaeth heb ymchwilio iddynt ymhellach.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau:

- bod pryderon yn cael eu cofnodi'n ddiogel a'u rheoli'n briodol;
- nad yw pryderon yn faleisus, a bod unrhyw honiadau yn cael eu gwirio a'u hasesu'n ddigonol.

Mewn rhai achosion, ee pan fydd pryderon ynghylch diogelu, gall fod angen i'r bwrdd iechyd weithredu'n brydlon yn unol â pholisïau diogelu.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi Canllawiau i Dimau Deintyddol ar Ddiogelu Plant ac Oedolion sydd mewn Perygl.

Mae'r camau allweddol wrth ymdrin â phryderon fel a ganlyn:

1. Dilysu'r pryder yn brydlon; gwerthuso, dadansoddi ac ymateb (gall hyn ddod â'r broses i ben os yw'n fân bryder).
2. Ymchwiliad, os oes angen (gall hyn ddod â'r broses i ben).
3. Proses benderfynu ffurfiol (Panel Cyfeirio – gweler Cam 3, tudalen 16).

Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y siart lif yn Atodiad 5.

***Cam 1***

Tasg gyntaf y bwrdd iechyd yw nodi natur y pryder gyda chymorth y grŵp ansawdd a diogelwch deintyddol (neu grŵp cyfatebol) ac asesu pa mor ddifrifol yw'r mater ar sail y wybodaeth sydd ar gael. Bydd hyn yn llywio'r broses o benderfynu a oes angen gweithredu ar y pryder, dilyn trywydd anffurfiol neu uwchgyfeirio'r pryder. Gellir ymgynghori â'r Gwasanaeth Asesu Clinigol Cenedlaethol wrth wneud hyn, os oes angen.

Mae'r Gwasanaeth Asesu Clinigol Cenedlaethol yn rhan o NHS Resolution (Awdurdod Ymgyfreitha'r GIG yn flaenorol). Ei ddiben yw cynnig arbenigedd i'r GIG mewn datrys pryderon yn deg, rhannu'r hyn a ddysgwyd er mwyn gwella a chadw adnoddau ar gyfer rhoi gofal i gleifion. Gall y Gwasanaeth Asesu Clinigol Cenedlaethol roi cyngor i fyrddau iechyd: http://resolution.nhs.uk/

Gweler Atodiad 6 i gael rhagor o wybodaeth am y Gwasanaeth Asesu Clinigol Cenedlaethol.

Pan fo'r pryder yn ymwneud â deintydd sy'n cael hyfforddiant sylfaenol, sy'n gweithio o dan drefniadau sy'n dilysu ei brofiad er mwyn ei gynnwys ar y Rhestr Cyflawnwyr neu sydd wedi'i gynnwys ar y Rhestr Cyflawnwyr yn amodol, dylid cynnwys y Cyfarwyddwr Addysg Ddeintyddol Ôl-raddedig neu unigolyn enwebedig cyn gynted â phosibl.

Ar y cam hwn, gall y bwrdd iechyd benderfynu ymdrin â'r pryder yn gyfrinachol ac nid oes rhaid rhoi gwybod i'r deintydd dan sylw o reidrwydd.

*Ymdrin â mân bryderon*

Pan gaiff y pryder ei ystyried yn fân bryder, a phan na fydd yn peri unrhyw risg i gleifion, gall y bwrdd iechyd benderfynu:

- Peidio â chymryd unrhyw gamau gweithredu (pan fydd y pryder yn ddibwys iawn, gall y bwrdd iechyd benderfynu peidio â rhoi gwybod i'r deintydd dan sylw bod pryder wedi cael ei godi); neu

- Ymdrin â'r matter fel maes datblygu neu gymorth. Yn yr achos hwn, dylid rhoi gwybod i'r deintydd dan sylw am y pryder. Gall fod gan Gymdeithas y Deintyddion Proffesiynol rôl i'w chwarae yn hyn o beth.

Gall fân bryderon ar eu pen eu hunain ymddangos yn ddibwys, ond gyda'i gilydd, gallant awgrymu problem y mae angen gweithredu arni. Gall pryderon ddod i sylw bwrdd iechyd mewn amrywiaeth o ffyrdd, ac nid oes set syml o ddangosyddion i ddiffinio perfformiad 'gwael'.

***Cam 2 – Pryderon y mae angen ymchwilio iddynt er mwyn cadarnhau'r ffeithiau***

Pa fo'r pryder yn fwy difrifol neu'n fawr, neu pan fo patrwm o bryderon yn awgrymu problem o ran perfformiad, caiff ei ystyried gan y Cyfarwyddwr Meddygol Cyswllt/Cyfarwyddwr Deintyddol Cyswllt drwy ymgynghori â'r grŵp ansawdd a diogelwch deintyddol (neu grŵp neu ddeintydd cyfatebol), a chaiff penderfyniad ei wneud i ymchwilio i'r pryder neu beidio. Ar y cam hwn, y cyngor yw peidio â chynnwys y Cyfarwyddwr Meddygol rhag ofn y bydd angen iddo gymryd camau gweithredu yn ddiweddarach. Gall fod angen ymchwilio i'r pryder er mwyn cadarnhau'r ffeithiau.

Nod yr ymchwiliad yw:

- cadarnhau'r ffeithiau mewn ffordd ddiduedd;
- cadarnhau'n gyflym yr hyn sydd wedi digwydd a pham;
- nodi a oes risg o hyd;
- penderfynu a oes angen cymryd camau gweithredu ar unwaith er mwyn dileu ffynhonnell y risg;
- argymell camau gweithredu er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw broblem sydd wrth wraidd y pryder.

Nid diben ymchwiliadau yw casglu tystiolaeth yn erbyn y deintydd. Dylid eu hystyried yn broses 'niwtral' o ganfod ffeithiau. Gall gwybodaeth a gasglwyd yn ystod ymchwiliad ryddhau'r deintydd o fai neu ddarparu sail gadarn i ddatrys y pryder yn effeithiol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd roi gwybod i'r deintydd dan sylw yn ysgrifenedig o fewn tri diwrnod gwaith i'r penderfyniad i gynnal ymchwiliad gael ei wneud. Dylid rhoi gwybod i'r deintydd am y pryder penodol a godwyd neu'r gŵyn benodol a wnaed a rhoi enw unigolyn cyswllt yn y bwrdd iechyd.

Bydd y bwrdd iechyd:

- yn penodi swyddog i gynnal yr ymchwiliad; bydd y swyddog:

- yn un o gyflogeion y bwrdd iechyd (gall fod yn un o gyflogeion bwrdd iechyd arall os oes angen);
- yn ddigon profiadol ac yn fedrus wrth ymchwilio i bryderon;
- yn gofyn am gyngor amserol a chymorth gan Gymdeithas y Deintyddion Proffesiynol (gan dybio nad yw'r Gymdeithas yn cynnal yr ymchwiliad);
- yn cydweithio'n agos â'r grŵp ansawdd a diogelwch deintyddol;
- yn ystyried pa wybodaeth y mae angen ei chasglu a sut y dylid gwneud hynny;
- yn casglu datganiadau ysgrifenedig a thystiolaeth ar lafar er mwyn cadarnhau'r ffeithiau'n briodol;
- yn sicrhau bod cofnod ysgrifenedig ffurfiol o'r ymchwiliad yn cael ei gadw'n ddiogel yn unol â pholisïau llywodraethu gwybodaeth;
- yn llunio adroddiad ffeithiol, yn dod i gasgliad ac yn gwneud argymhellion i'w hystyried gan y grŵp ansawdd a diogelwch deintyddol.

Os yw'r achos yn ymwneud â materion clinigol sy'n fwy cymhleth nag a ragwelwyd i ddechrau, dylai'r swyddog geisio cyngor y grŵp ansawdd a diogelwch deintyddol (neu grŵp cyfatebol) yn brydlon.

Yn ogystal, gall wneud y canlynol:

- Gofyn i Gynghorydd Clinigol Gwasanaethau Deintyddol y GIG adolygu cofnodion cleifion;
- Nodi ffynonellau o gymorth iechyd galwedigaethol (gall fod angen sicrhau bod y deintydd dan sylw yn gwybod ble i gael cymorth iechyd galwedigaethol);
- Cynnwys y Gwasanaeth Asesu Clinigol Cenedlaethol fel y bo'n briodol;
- Cysylltu ag AaGIC neu sefydliadau hyfforddiant proffesiynol eraill;

- Gweithio gyda Chymdeithas y Deintyddion Proffesiynol a'r grŵp ansawdd a diogelwch deintyddol er mwyn llunio cynlluniau datblygu a hyfforddiant ar gyfer deintyddion unigol.

Mae'n arfer da cwblhau unrhyw ymchwiliad/asesiad o fewn tri mis i'r amser y cytunwyd i ymchwilio i'r pryder. Er hynny, mae profiad yn dangos y bydd achosion mwy cymhleth yn cymryd mwy o amser. Pan fydd yr ymchwiliad yn cymryd mwy na thri mis, rhaid i'r bwrdd iechyd roi gwybod i'r deintydd dan sylw fod yr ymchwiliad yn dal i fynd rhagddo a pharhau i roi gwybod iddo o leiaf bob tri mis nes bod yr ymchwiliad wedi'i gwblhau.

*Pan fydd yr ymchwiliad wedi'i gwblhau*

Bydd y Cyfarwyddwr Meddygol Cyswllt/Cyfarwyddwr Deintyddol Cyswllt a'r grŵp ansawdd a diogelwch deintyddol yn ystyried yr adroddiad yn sgil yr ymchwiliad ar ran y bwrdd iechyd ac yn penderfynu ar y camau nesaf.

Os nad yw'r pryder yn cyfiawnhau cyfeirio'r deintydd sydd wedi cofrestru ar unwaith at Banel Cyfeirio, caiff ei wahodd i gwrdd â Chymdeithas y Deintyddion Proffesiynol a'r Pennaeth Gofal Sylfaenol (neu uwch bersonél y bwrdd iechyd unigol sydd â phrofiad addas, fel y bo'n briodol) er mwyn trafod y pryder a nodi anghenion dysgu.

Gall y bwrdd iechyd hefyd wahodd deiliad y contract i fod yn bresennol (os nad y deintydd dan sylw yw deiliad y contract). Mewn rhai amgylchiadau, mae’n bosibl na fydd deiliad y contract wedi cefnogi cyflawnydd yn ddigonol.

Efallai y bydd y bwrdd iechyd yn penderfynu y gall y deintydd barhau i ymarfer, ond gyda chymorth a rhaglen unioni ar waith. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd hyn yn cynnwys cynllun gwella strwythuredig er mwyn i'r deintydd ymarfer heb oruchwyliaeth lawn unwaith eto. Fel arfer, dylai'r cynllun gael ei nodi mewn cytundeb ffurfiol wedi'i lofnodi rhwng y deintydd a'r bwrdd iechyd, a bydd angen i'r deintydd ei gwblhau o fewn amserlen glir. Dylai'r bwrdd iechyd fonitro cynnydd i gwblhau'r cynllun yn rheolaidd. (Gweler Adran 8 i gael rhagor o wybodaeth am gynlluniau gwella).

Dylid cynghori deintydd a gyflogir gan bractis(au) i drafod y cynllun gwella gyda'i gyflogwr, yn enwedig os yw'r materion yn effeithio ar ddiogelwch cleifion, y Darparwr, contract y GIG neu'r practis cyfan.

Ar y cam hwn, dylid esbonio'n glir i'r deintydd dan sylw beth fydd y canlyniadau os nad yw'n cwblhau'r cynllun neu'n cydymffurfio â'r prosesau. Dylai ddeall y gall diffyg cydymffurfio olygu y bydd yn cael ei gyfeirio at Banel Cyfeirio ac y gall y Panel osod sancsiynau. Dylid rhoi'r wybodaeth hon yn ysgrifenedig fel rhan o broses y cynllun gwella.

Os cytunir ar y broses hon, bydd y swyddog a gynhaliodd yr ymchwiliad:

- yn rhoi gwybod i'r bwrdd iechyd am y camau gweithredu a'r ffordd y caiff perfformiad ei fonitro;

- yn rhoi adroddiadau ar gynnydd i Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch y bwrdd iechyd (ac i'r Bwrdd wedi hynny) ar adegau y cytunwyd arnynt. Mewn rhai byrddau iechyd, gall pwyllgorau neu grwpiau eraill gael adroddiadau ar gynnydd, ond bydd angen sicrhau'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch bod perfformiad sy'n peri pryder ym maes gofal sylfaenol yn cael sylw priodol, teg ac effeithiol.

Os nad yw'r deintydd yn mynd i'r cyfarfod neu'n cydymffurfio â phroses y cynllun gwella, bydd y bwrdd iechyd yn ceisio ymateb yn syth gan y deintydd dan sylw. Dylai'r deintydd ymateb o fewn 14 diwrnod, ond o fewn 28 diwrnod fan bellaf. Caiff yr ymateb ei drafod gan y Cyfarwyddwr Meddygol/Cyfarwyddwr Meddygol Cyswllt/Cyfarwyddwr Deintyddol Cyswllt a'r grŵp ansawdd a diogelwch deintyddol. Byddant yn penderfynu a oes achos i'w ateb.

Os na fydd y bwrdd iechyd yn cael ymateb neu ymateb digonol gan y deintydd dan sylw, bydd y deintydd yn destun proses y Panel Cyfeirio neu'n cael ei gyfeirio at y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, y gwasanaeth atal twyll neu'r heddlu.

Os oes gan y deintydd broblemau iechyd, neu os yw'n ymddangos bod ganddo broblemau iechyd, gall y Cyfarwyddwr Meddygol/Cyfarwyddwr Meddygol Cyswllt/Cyfarwyddwr Deintyddol Cyswllt ei gynghori i geisio'r cymorth meddygol neu alwedigaethol proffesiynol perthnasol.

Ar gyfer deiliaid contract y GIG, gall y bwrdd iechyd hefyd ofyn i'r deintydd gael archwiliad meddygol fel y nodir ym mharagraff 71(2)(m), Rhan 9 o Atodlen 3 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Cymru) 2006 a pharagraff 69(2)(l), Rhan 9 o Atodlen 3 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cytundebau Gwasanaethau Deintyddol Personol) (Cymru) 2006. Dylid ystyried hyn yn gam sy'n cefnogi'r deintydd dan sylw.

Gall yr ymchwiliad nodi pryderon ehangach ynghylch y practis a'r tîm deintyddol. Gall deintyddion unigol ei chael hi'n anodd oherwydd systemau ansawdd a diogelwch gwael, diffyg cymorth gan y tîm, cyfleusterau/cyfarpar annigonol a gofynion rheolwyr y practis. Yn yr achosion hyn, rhaid i'r bwrdd iechyd weithio gyda'r practis cyfan yn ogystal â'r deintydd dan sylw. Gall fod angen cysylltu ag AGIC ac AaGIC er mwyn mynd i'r afael â phractis sy'n methu.

*Diogelu cleifion ac effeithlonrwydd gwasanaethau*

Rhaid rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch cleifion wrth ddelio â phryderon. Gall fod angen i'r bwrdd iechyd osod cyfyngiadau dros dro ar gwmpas y gwaith clinigol sy'n cael ei wneud gan y deintydd a sicrhau bod y deintydd dan sylw yn cael cymorth priodol gan gydweithiwr yn y practis. Gallai cyfyngiadau gynnwys gofynion i beidio â thrin categorïau penodol o gleifion neu ofynion i ddilyn gweithdrefnau penodol yn unig o dan amgylchiadau penodol.

*Ymdrin â phryderon difrifol iawn*

Pan fo'n glir bod pryder yn ddifrifol iawn, gall fod angen i'r bwrdd iechyd weithredu'n gyflym, a gall wneud y canlynol unrhyw bryd:

- Mynd yn syth i Banel Cyfeirio yn unol â Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) er mwyn ystyried atal deintydd dros dro o'r Rhestr Cyflawnwyr Deintyddol (gweler Cam 3).
- Ystyried cyfeirio'r deintydd sydd wedi cofrestru yn syth at y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.
- Rhoi gwybod i'r gwasanaethau atal twyll neu'r heddlu.

***Cam 3 – Proses benderfynu ffurfiol:Y Panel Cyfeirio***

Y Panel Cyfeirio sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ffurfiol ynghylch materion sy'n ymwneud â disgyblu deintyddion. Mae'n cadarnhau'r ffeithiau drwy adolygu unrhyw dystiolaeth a gaiff ei chyflwyno yn dilyn ymchwiliad y bwrdd iechyd. Dylai proses y bwrdd iechyd gydymffurfio â gofynion Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) 2004 (fel y'u diwygiwyd).

Rhaid i aelodau'r Panel fod yn annibynnol ar y broses cyn y cam hwn. Dylent fod wedi cael hyfforddiant ar weithdrefnau perfformiad, neu gael eu hystyried yn unigolyn sydd â phrofiad cyfatebol o brosesau o'r fath. Gall hyfforddiant i aelodau'r Panel gynnwys mynd ar gyrsiau'r Gwasanaeth Asesu Clinigol Cenedlaethol neu gyrsiau tebyg.

Dylai uwch aelod o Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru fod yn bresennol er mwyn rhoi cyngor ar y prosesau a'r gweithdrefnau. Mae angen recordydd hefyd er mwyn sicrhau bod cofnodion cywir yn cael eu cadw o'r trafodion a bod cofnodion ysgrifenedig ar gael i'w harchwilio.

Gall y bwrdd iechyd geisio cymorth a chyngor cyfreithiol priodol cyn Panel Cyfeirio ac yn ystod Panel. Rhaid i'r Panel gynnwys clinigwr deintyddol sydd â gwybodaeth briodol i gynghori aelodau'r Panel.

*Aelodau'r Panel Cyfeirio*

Dylai aelodau'r Panel Cyfeirio gynnwys:

- Cadeirydd – un o Swyddogion Gweithredol y bwrdd iechyd, sydd â'r pŵer i atal deintydd dros dro;

- Aelod sy'n annibynnol ar y bwrdd iechyd;

- Y Cyfarwyddwr Meddygol sy'n gyfrifol am faterion sy'n ymwneud â pherfformiad ym maes gofal sylfaenol. Rhaid i'r unigolyn hwn fod yn wahanol i'r unigolyn sydd wedi bod yn rhan o'r broses o ymdrin â'r pryder hyd yma. O ystyried hyn, efallai y bydd angen i'r unigolyn fod o fwrdd iechyd gwahanol;

- Y Cyfarwyddwr Deintyddol Cyswllt/aelod o Gymdeithas y Deintyddion Proffesiynol – clinigwr sy'n deall materion clinigol deintyddol a goblygiadau (os yw'r Cyfarwyddwr Deintyddol Cyswllt neu'r aelod o Gymdeithas y Deintyddion Proffesiynol wedi bod yn rhan o'r broses hyd yma, bydd angen gofyn i Gyfarwyddwr Deintyddol Cyswllt arall neu aelod arall o Gymdeithas y Deintyddion Proffesiynol o fwrdd iechyd arall fod yn bresennol);

- Enwebai'r Pwyllgor Deintyddol Lleol.

Mae enwebai'r Pwyllgor Deintyddol Lleol yn cynnig safbwynt deintyddol o'r tu allan ac yn rhoi sicrwydd ychwanegol i'r bwrdd iechyd a chontractwyr annibynnol lleol bod y Panel Cyfeirio yn cael ei gynnal yn briodol. Fel arfer, bydd y bwrdd iechyd yn ariannu hyn, ond gall trefniadau lleol fod yn wahanol.

Ni ddylai aelodau'r Panel Cyfeirio fod wedi bod yn rhan o'r broses hyd yma.

<u>Gall swyddog y bwrdd iechyd a gynhaliodd yr ymchwiliad fynd i sesiwn agored Panel Cyfeirio yn unol â'r gweithdrefnau enghreifftiol</u>.

Dylai uwch aelod o Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru fod yn bresennol er mwyn rhoi cyngor ar y prosesau a'r gweithdrefnau. Mae angen cofnodwr er mwyn sicrhau bod cofnodion cywir yn cael eu cadw o'r trafodion a bod cofnodion ysgrifenedig ar gael i'w harchwilio.

Gall Cadeirydd y Panel Cyfeirio geisio cyngor Pwyllgor Cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Dylid rhoi gwybod i'r Pwyllgor Cenedlaethol pa gamau gweithredu y mae'r Panel Cyfeirio wedi'u cymryd er mwyn cefnogi dysgu a rhannu profiad. Bydd y bwrdd iechyd hefyd am gadw cofnod dysgu lleol i gyfrannu at bolisïau a phrotocolau lleol perthnasol a hwyluso’r gwaith o rannu’n effeithiol drwy’r Pwyllgor Cenedlaethol.

*Camau gweithredu y gall y Panel Cyfeirio eu cymryd*

O dan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, mae gan y Panel Cyfeirio y pŵer i argymell bod y bwrdd iechyd yn gwneud y canlynol:

- Tynnu enw'r deintydd oddi ar Restr Cyflawnwyr y GIG.

- Tynnu enw'r deintydd oddi ar Restr Cyflawnwyr y GIG yn amodol.

- Atal y deintydd dros dro o Restr Cyflawnwyr y GIG.

- Cyfeirio'r deintydd at y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

- Cyfeirio'r deintydd at y Gwasanaeth Asesu Clinigol Cenedlaethol er mwyn i'r gwasanaeth ystyried cynnal asesiad.

- Peidio â chymryd camau gweithredu.

(DS – Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr).

Y prif bwyntiau i'w hystyried yw:

- Diogelu cleifion ac effeithlonrwydd gwasanaethau;
- Nodi'r systemau unioni;
- Nodi adnoddau a chymorth;
- Adolygu cynnydd a chymeradwyo.

Rhaid gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar statws ffurfiol deintydd ar Restr Cyflawnwyr Deintyddol yn unol â'r rheoliadau perthnasol a darpariaethau statudol. Yn gyffredinol, mae'r rheoliadau sy'n ymwneud â rhestri Cyflawnwyr yn rhoi'r pŵer i fyrddau iechyd atal Cyflawnwr/Darparwr meddygol dros dro o'u Rhestr Cyflawnwyr a dileu neu ddileu yn amodol eu henwau oddi ar y rhestr honno. Mae p'un a ddylid cynnal Panel Cyfeirio yn fater i'r Cadeirydd benderfynu arno, a dylai ddefnyddio'r gweithdrefnau enghreifftiol a gyhoeddwyd gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

(Mae'r *gweithdrefnau enghreifftiol i ymdrin â gwrandawiadau sylwadau Panel Llafar/Pwyllgorau sy'n ymwneud â dileu enw deintydd;dileu enw deintydd yn amodol;atal ymarferwyr dros dro* ar gael gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a byrddau iechyd).

*Panel Cyfeirio Cymru gyfan*

<u>Efallai</u> y bydd byrddau iechyd yn dewis cydweithio er mwyn <u>datblygu Panel Cyfeirio Cymru gyfan unigol neu Baneli Cyfeirio Rhanbarthol</u>. Bydd yr aelodau'n cael eu dewis o gronfa o bobl sydd â phrofiad priodol ac sydd wedi cael hyfforddiant priodol. Gall cymryd rhan mewn Panel Cymru gyfan neu Banel Rhanbarthol wella sgiliau aelodau ymhellach. Fodd bynnag, rhaid iddo gynnwys unigolyn sydd â'r pŵer i atal y deintydd dan sylw dros dro o fwrdd iechyd contractiol y GIG.

Gellid rheoli a gweinyddu Panel Cyfeirio Cymru gyfan gan ddefnyddio prosesau perthnasol asiantaethau (ee Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru). Bydd camau gweithredu'n unol â'r rheoliadau a Rheolau Sefydlog bwrdd iechyd.

Rhaid i'r Panel gael ei gynnal yn ardal y bwrdd iechyd lle mae'r deintydd dan sylw yn gweithio.

## 8. Cynllun gwella

Mae 'cynllun gwella' yn gytundeb ffurfiol rhwng y deintydd a'r bwrdd iechyd. Mae'n ffordd o ymgysylltu â'r deintydd a sicrhau ymrwymiad i wneud gwelliannau penodol o fewn amserlen benodol. Bydd y cynllun yn diffinio rolau

a chydberthnasau ac yn nodi sut y bydd y broses yn cael ei dwyn i ben a'i chymeradwyo.

Bydd y cynllun yn nodi gofynion addysgol penodol a gofynion eraill. Bydd yn nodi ble a sut y bydd y deintydd yn gweithio yn ystod y rhaglen – p'un ai yn ei bractis ei hun (mewnol), mewn practis hyfforddi sefydledig (allanol) neu mewn cyfuniad o'r ddau. P'un a gaiff ei hyfforddi'n fewnol neu'n allanol, dylid nodi mentor profiadol i helpu'r deintydd gyda phroblemau sy'n ymwneud â pherfformiad a'i helpu i gwblhau'r cynllun gwella. Mae angen i'r mentor asesu cynnydd y deintydd yn erbyn yr amcanion a llunio adroddiadau cyfnodol ar gyfer y Cyfarwyddwr Meddygol/Cyfarwyddwr Meddygol Cyswllt.

Dylai'r cynllun fod yn seiliedig ar amcanion SMART a fydd yn helpu'r deintydd i ddangos ei fod wedi cwblhau'r cynllun ac yn rhoi tystiolaeth i'r bwrdd iechyd er mwyn iddo benderfynu a yw wedi cwblhau'r cynllun yn llwyddiannus.

Gan ddibynnu ar ei gwmpas a'i gynnwys, gall cynllun gwella olygu mynd i gostau a fydd yn cael eu talu gan y deintydd dan sylw a/neu ddeiliad y contract os yw’r pryder yn ymwneud â systemau practis.

*Adolygu cynnydd a chymeradwyo*

Drwy gwblhau'r cynllun gwella, gall y bwrdd iechyd benderfynu a ddylid caniatáu i'r deintydd ddychwelyd i'r gwaith gyda systemau arfarnu a chymorth arferol.

Ar ddiwedd yr amserlen a ddynodwyd yn glir, dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r dystiolaeth a roddwyd gan y deintydd dan sylw, nodi a gwblhawyd y cynllun/camau gweithredu'n foddhaol ac, os na chawsant, pa gamau gweithredu pellach y mae angen eu cymryd.

Pan fydd y deintydd wedi cwblhau'r broses wella, bydd y bwrdd iechyd yn penderfynu a ddylid dod â'r pryder i ben neu beidio. Gall hyn olygu ymgynghori â'r unigolion a'r sefydliadau sydd wedi cefnogi'r deintydd dan sylw. Rhaid sicrhau'r bwrdd iechyd nad yw perfformiad y deintydd yn ddiffygiol mwyach ac y gellir codi unrhyw gyfyngiadau. Dylid gwneud hyn ar ffurf adolygiad ffurfiol gan y grŵp ansawdd a diogelwch deintyddol. Os nad yw'r bwrdd iechyd wedi'i sicrhau, yna bydd angen cymryd camau gweithredu pellach. Gall hyn gynnwys cyfeirio'r deintydd at Banel Cyfeirio neu'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Pan na fydd cynllun wedi cael ei gwblhau'n ddigonol, neu pan na fydd deintydd wedi ymgymryd ag ef, rhaid rhoi gwybod i'r Cyfarwyddwr Meddygol/Cyfarwyddwr Meddygol Cyswllt/Cyfarwyddwr Deintyddol Cyswllt yn brydlon, a gall y bwrdd iechyd benderfynu pa gamau i'w cymryd, gan gynnwys ei gyfeirio at y Cyngor Deintyddol Cyffredinol neu ddileu ei enw oddi ar y Rhestr Cyflawnwyr. Mae'r opsiwn hwn ar gael i'r bwrdd iechyd ar gamau adolygu cynharach.

Os na fydd y deintydd yn cydweithredu, neu os na fydd y cynnydd a wnaed yn foddhaol, gellir dod â'r broses unioni i ben cyn iddi gael ei chwblhau. Gellir hefyd ei hymestyn os bydd y deintydd, y Cyfarwyddwr Meddygol/Cyfarwyddwr

Meddygol Cyswllt/Cyfarwyddwr Deintyddol Cyswllt a'r grŵp ansawdd a diogelwch deintyddol yn cytuno y gall cyfnod unioni pellach fod yn fuddiol.

*Cymorth*

Gall adnoddau pellach ar gyfer cymorth a hyfforddiant fod ar gael gan y canlynol:

- Penodeion AaGIC neu unigolion eraill mewn rôl cynghori;
- Uwch hyfforddwyr neu hyfforddwyr datblygiadol;
- Arbenigwyr clinigol yn y bwrdd iechyd (ee Cynghorwyr Practis Deintyddol) neu ymgynghorwyr/arbenigwyr sy’n gweithio yn y bwrdd iechyd neu’r tu hwnt ee ymlyniad clinigol.

**Atodiad 1**

**Pryderon ynghylch perfformiad**

Gellir crynhoi pryderon ynghylch perfformiad fel pryderon sy'n golygu bod cleifion neu aelodau'r tîm deintyddol mewn perygl o ddioddef niwed difrifol gan unrhyw agwedd ar wasanaeth deintyddol. Gallant fod yn gymhleth, yn aml-ffactorol a gallant ymwneud â pherfformiad:

- sy'n bygwth, neu a all fygwth, ddiogelwch cleifion, neu sy'n rhoi cleifion neu'r tîm deintyddol 'mewn perygl';
- sydd y tu hwnt i ganllawiau a safonau ymarfer derbyniol neu sy'n methu â chyrraedd y safonau gofynnol heb reswm digonol;
- sy'n gwyro'n gyson oddi wrth yr hyn sy'n cael ei ystyried yn ymarfer arferol;
- sy'n gwneud gwasanaethau'n agored i risgiau ariannol neu risgiau sylweddol eraill;
- sy'n tanseilio enw da neu effeithlonrwydd gwasanaethau mewn rhyw ffordd sylweddol.

Mae pryderon ynghylch perfformiad gwael neu ddiffygiol yn cynnwys pryderon ynghylch:

- Gofal clinigol a/neu sgiliau trefnu a rheoli wrth roi gofal iechyd;
- Gwybodaeth, sgiliau, ymddygiad, agwedd ac iechyd;
- Patrwm o berfformiad mewn amrywiaeth o feysydd dros gyfnod o amser;

a gallant gynnwys pryderon ynghylch:

- Ymarfer clinigol a phroffesiynol;
- Y ffordd yr ymdrinnir â chleifion a'r cyhoedd yn fwy cyffredinol;
- Y ffordd y caiff y practis a'r tîm deintyddol eu rheoli;
- Cyllid a chywirdeb.

Mae achosion perfformiad diffygiol yn cynnwys:

- Ynyswch proffesiynol;

- Diffyg addysg broffesiynol barhaus;
- Iechyd corfforol neu iechyd meddwl gwael;
- Camddefnyddio cyffuriau neu alcohol;
- Llwyth gwaith yn y practis, straen, gofynion contract y GIG, y dull o reoli'r contract a chyllid;
- Cwynion;
- Seilwaith y practis, cyfarpar, diwylliant, amgylchedd a gwaith tîm aneffeithiol;
- Diffyg hyfforddiant sefydlu neu gymorth i ddeintyddion sy'n newydd i'r practis neu sy'n newydd i systemau'r GIG yn y DU;
- Problemau sy'n ymwneud â chydberthnasau rhyngbersonol – yn y cartref neu yn y gwaith;
- Profiadau proffesiynol trasig sy'n peri gofid.

**Atodiad 2**

**Pryderon ynghylch gofal deintyddol preifat**

Pan fydd pryderon wedi cael eu codi am ddeintydd neu bractis hollol breifat, dylid codi'r pryder gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). Mae dyletswydd ar fyrddau iechyd i weithredu pan all problemau mewn practis hollol breifat effeithio ar iechyd a diogelwch eu poblogaeth.

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cynghori pobl sydd wedi cael triniaeth breifat i gysylltu â'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol:

https://dcs.gdc-uk.org/

**Deintyddion sydd wedi cofrestru sydd â phryderon am ddeintyddion eraill sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol**

Mae safon 8 o safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y tîm deintyddol yn nodi:

Bod cleifion yn disgwyl i'r tîm deintyddol weithredu'n brydlon er mwyn eu diogelu os bydd pryderon ynghylch iechyd, perfformiad neu ymddygiad deintydd proffesiynol neu'r amgylchedd lle y caiff triniaeth ei rhoi.

Bod yn rhaid i ddeintyddion sydd wedi cofrestru roi diogelwch cleifion yn gyntaf a chodi unrhyw bryderon y gallai cleifion fod mewn perygl:

- oherwydd iechyd, ymddygiad neu berfformiad proffesiynol cydweithiwr;
- oherwydd unrhyw agwedd ar yr amgylchedd lle y caiff triniaeth ei rhoi; neu
- am fod rhywun wedi gofyn iddynt wneud rhywbeth sydd, yn eu barn nhw, yn gwrthdaro â'u dyletswyddau i roi buddiannau'r claf yn gyntaf a gweithredu i'w ddiogelu.

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn rhoi cyngor ar godi pryder: https://www.gdc-uk.org/professionals/ftp-prof/advice-on-concern

Nid yw'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn nodi lle mae'n rhaid rhoi gwybod am unrhyw bryderon. Yn y gorffennol, mae'n bosibl na chafodd pryderon eu dwyn i sylw'r bwrdd iechyd am nad oedd deintyddion a oedd wedi cofrestru am gael eu henwi os oeddent yn pryderu am berfformiad cydweithiwr. Mae'n hanfodol bod y bwrdd iechyd yn delio â chwythwyr chwiban yn unol â'r Safonau Iechyd a Gofal a'u polisi ar chwythu'r chwiban.

Mae gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) rôl arbennig wrth ddelio â phobl sy'n ystyried "chwythu'r chwiban" mewn perthynas â'r pryderon sydd ganddynt ynghylch camymddwyn ym maes gofal iechyd yng Nghymru. Mae AGIC yn gorff rhagnodedig o dan gyfreithiau chwythu'r chwiban.

**Atodiad 3**

**Enghreifftiau o faterion y gellir eu cyfeirio at y Pwyllgor Gorchmynion Interim**

| | |
|---|---|
| **Enw wedi'i dynnu oddi ar Restr Cyflawnwyr sefydliad gofal sylfaenol oherwydd perfformiad gwael** | Ond ystyriwch: a yw'r sefyllfa wedi cael ei datrys bellach? A yw'r deintydd sydd wedi cofrestru ar y gofrestr eto ac yn cyflawni ei waith yn briodol? Hynny yw, a yw'n achos brys o hyd, neu a yw'r achos brys hwnnw wedi dod i ben? |
| **Honiadau o esgeulustod dan oruchwyliaeth sy'n cynnwys sawl claf/digwyddiad clinigol unigol sy'n ddifrifol iawn** | Ystyriwch a yw'r honiadau hyn yn rhai presennol neu hanesyddol a'r risg bresennol, hy a yw ymarfer clinigol y deintydd sydd wedi cofrestru yn peri risg barhaus i gleifion? A honnir nad oes ganddo ddigon o wybodaeth neu sgiliau clinigol sylfaenol? |
| **Ymosodiad corfforol neu rywiol honedig ar gleifion neu staff** | Bydd pob achos yn dibynnu ar yr amgylchiadau. |
| **Cydberthynas rywiol neu amhriodol â chlaf** | A yw'r deintydd sydd wedi cofrestru wedi defnyddio ei statws proffesiynol i ddechrau neu anelu at ddechrau cydberthynas rywiol neu amhriodol â chlaf? Fel uchod, bydd pob achos yn dibynnu ar yr amgylchiadau. |
| **Achosion difrifol o dorri mesurau rheoli croes-heintio** | Ystyriwch a ydynt wedi cael eu datrys a ph'un a oes risg bresennol. |
| **Ymchwiliadau troseddol neu gyhuddiadau am droseddau difrifol** | Bydd bob amser yn dibynnu ar ddifrifoldeb yr ymchwiliad troseddol a/neu'r cyhuddiad, ee a yw'n ymwneud â llofruddiaeth, dynladdiad, trais a cham-drin plant yn rhywiol? Gellir cyfeirio troseddau eraill sy'n ymwneud ag ymddygiad anweddus, ond bydd yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Mewn achosion eraill, gofynnwch pa anawsterau fyddai'n codi pe na chyfyngid ar gofrestriad deintydd sydd wedi cofrestru tra bod yr honiadau'n cael eu datrys a ph'un a fyddai aelod rhesymol o'r cyhoedd sydd â gwybodaeth briodol yn synnu at y ffaith bod y deintydd sydd wedi cofrestru wedi cael caniatâd i ymarfer yn y cyfamser? |
| **Penderfyniad i wahardd y deintydd sydd wedi cofrestru rhag gweithio gyda phlant ac oedolion sy'n agored i niwed** | |
| **Rhesymau iechyd** | hy Rhesymau iechyd sy'n effeithio ar allu'r deintydd sydd wedi cofrestru i wneud ei waith neu a all arwain at drosglwyddo rhyw glefyd trosglwyddadwy difrifol. Os bydd |

| | |
|---|---|
| | deintydd yn gwrthod cydweithredu a chael asesiad iechyd, gall hyn fod yn ffactor perthnasol wrth benderfynu a ddylid cyfeirio'r mater at y Pwyllgor Gorchmynion Interim. |
| **Achos difrifol o dorri cwmpas ymarfer** | Yn hollbwysig, a yw'n torri'r cwmpas ymarfer yn barhaus (sy'n golygu bod risg bresennol i ddiogelwch y cyhoedd) neu a yw'r honiad yn un hanesyddol? |
| **Dim indemniad** | A ydym yn ystyried cyfnod o ymarfer blaenorol heb indemniad neu dystiolaeth bod y deintydd sydd wedi cofrestru yn parhau i ymarfer heb indemniad er gwaethaf yr ymchwiliad? |

## Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar Orchmynion Interim

*Prawf ar gyfer cyfeirio achosion/gosod gorchymyn interim*

1. Dylai'r Cofrestrydd gyfeirio achos at y Pwyllgor Gorchmynion Interim os yw'n ystyried ei bod yn *briodol* gwneud hynny o dan yr amgylchiadau[1].

2. Er y gall y Cofrestrydd hefyd gyfeirio'r mater at y Pwyllgor Ymchwilio (yn unol ag Adrannau 27(5)(a) a 26N(5)(a)) ar yr un pryd ag y bydd yn cyfeirio'r mater at y Pwyllgor Gorchmynion Interim, nid yw hyn yn bosibl bob tro (ee pan fydd angen ymchwiliad pellach cyn gwneud asesiad) nac yn angenrheidiol.

3. Wrth ystyried a yw'n briodol cyfeirio achos, dylai'r Cofrestrydd ystyried prawf y Pwyllgor Gorchmynion Interim fel y nodir isod.

4. Mae'r prawf a gaiff ei ddefnyddio gan y Pwyllgor Gorchmynion Interim wrth benderfynu a ddylid gosod gorchymyn interim yn erbyn cofrestriad deintydd wedi'i nodi yn Adran 32(4) o'r Ddeddf (Saesneg yn unig)[2]:
*"Where a Committee are satisfied that it is necessary for the protection of the public or is otherwise in the public interest, or is in the interests of the person concerned, for the person's registration to be suspended or to be made subject to conditions, the Committee may make –*

   *(a) an order that his registration in the register shall be suspended during such period not exceeding 18 months as may be specified in the order (an "interim suspension order");*
   *Or*

   (b) *an order that his registration shall be conditional on his compliance, during such period not exceeding 18 months as may be specified in*

[1] Adran 27(5) (*deintyddion*) a 36N(5) (*gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol*) o'r Ddeddf: *"The registrar— (a)…….(b) may also, if he considers it appropriate, refer the allegation to the Interim Orders Committee."*
[2] Mae'r ddarpariaeth gyfatebol ar gyfer gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol wedi'i nodi yn Adran 36V o'r Ddeddf.

*the order, with such conditions so specified as the Committee think fit to impose (an "order for interim conditional registration")"*.

5. Felly, dylid cyfeirio achosion at Bwyllgor Gorchmynion Interim pan fo'r deintydd sydd wedi cofrestru yn wynebu materion o'r fath natur sy'n golygu y gall cyfyngu ar ei gofrestriad fod yn angenrheidiol er diogelwch y cyhoedd neu, fel arall, er lles y cyhoedd neu er budd y deintydd ei hun tra bod ymchwil yn cael ei wneud i'r mater. Caiff pob un o'r meysydd hyn eu hystyried yn eu tro, isod:

*Diogelu'r cyhoedd*

6. Rhaid i'r Pwyllgor Gorchmynion Interim fod yn fodlon ar yr holl wybodaeth sydd ar gael cyn ystyried bod gorchymyn yn **angenrheidiol** er mwyn diogelu'r cyhoedd: hynny yw, bod risg go iawn o niwed sylweddol (gwirioneddol a phosibl) i iechyd, diogelwch neu les claf, ymwelydd, cydweithiwr neu aelod arall o'r cyhoedd os caiff y deintydd sydd wedi cofrestru ymarfer heb gyfyngiad.

7. Felly, wrth ystyried a ddylid cyfeirio mater at y Pwyllgor Gorchmynion Iechyd, dylid ystyried difrifoldeb y risg o niwed i aelodau'r cyhoedd os na chyfyngir ar gofrestriad y deintydd sydd wedi cofrestru. Wrth asesu'r risg i aelodau'r cyhoedd, bydd y Pwyllgor Gorchmynion Interim yn ystyried difrifoldeb y mater, effeithiolrwydd y dystiolaeth a faint ohoni sydd ar gael, gan gynnwys tystiolaeth o'r tebygolrwydd y bydd yn digwydd eto tra bod ymchwil yn cael ei wneud i'r mater.

*Lles y cyhoedd*

8. Yn ogystal â diogelu'r cyhoedd, mae lles y cyhoedd yn cynnwys:

    a. cynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn;
    b. cynnal safonau ymddygiad a pherfformiad da.

9. Felly, gofynnir am orchymyn interim, ar sail lles y cyhoedd yn unig, er mwyn diogelu hyder y cyhoedd yn y proffesiwn a chynnal safonau proffesiynol priodol nes bod penderfyniad wedi'i wneud ynghylch y trafodion yn eu cyfanrwydd. Wrth benderfynu a ddylid gosod gorchymyn interim, bydd y Pwyllgor Gorchmynion Interim yn ystyried y niwed **difrifol** a achosir i hyder y cyhoedd yn y proffesiwn a'r ffordd y caiff safonau da eu cynnal os na chaiff gorchymyn ei osod, ac yn ystyried hefyd a fyddai aelod o'r cyhoedd yn synnu pe na bai'r Pwyllgor Gorchmynion Interim yn gwneud gorchymyn mewn perthynas â mater a brofwyd yn ddiweddarach.

10. Bydd yn beth cymharol brin i orchymyn gael ei osod ar sail lles y cyhoedd yn unig. Er nad yw'r gair "angenrheidiol" yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y sail hon, mae o leiaf yn awgrymu rhywfaint o anghenraid a dymunoldeb. Yng nghyd-destun gosod gorchymyn atal interim ar y sail benodol hon, mewn achosion cyffredin o leiaf, mae anghenraid yn ffon fesur briodol, a hynny oherwydd rhesymau sy'n ymwneud â chymesuredd. Mae'n beth difrifol iawn i ddeintydd sydd wedi cofrestru gael ei atal dros dro. Mae'n ddifrifol mewn llawer o achosion oherwydd yr effaith ar hawl yr unigolyn hwnnw i ennill bywoliaeth. Mae'n ddifrifol ym mhob achos oherwydd y niwed i'r deintydd sydd wedi cofrestru o ran ei enw da. Felly, fel y nodir uchod, mae'n debygol o fod yn beth cymharol brin i orchymyn atal dros dro interim gael ei osod er lles y cyhoedd yn unig.[3]

*Buddiannau'r deintydd sydd wedi cofrestru*

11. Mae hon yn sail anarferol a gall fod yn gymwys am fod y deintydd sydd wedi cofrestru yn sâl ac nad yw'n gwybod hynny, neu am fod ffactorau eraill sy'n awgrymu diffyg dealltwriaeth a bod angen ei ddiogelu rhag ei hun. Caiff hynny ei bwyso yn erbyn unrhyw galedi a gaiff ei achosi i'r deintydd sydd wedi cofrestru gan unrhyw orchymyn interim a'r effeithiau dinistriol posibl os caiff gorchymyn ei osod. Eto, bydd y Pwyllgor Gorchmynion Interim yn ystyried risg sylweddol o niwed yn y dyfodol os na chyfyngir ar y cofrestriad. Efallai ei bod yn anodd dychmygu amgylchiadau lle y byddai gorchymyn o'r fath yn cael ei osod ar y sail hon yn unig.

*Cymesuredd*

12. Rhaid i'r Pwyllgor Gorchmynion Interim gymhwyso egwyddor bwysig cymesuredd yn ei ystyriaethau. Rhaid iddo gydbwyso'r angen i ddiogelu'r cyhoedd a lles y cyhoedd ehangach â lles y deintydd sydd wedi cofrestru. Mae cymesuredd yn golygu cymryd y camau angenrheidiol a phriodol gofynnol i fynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd. Nid yw'r Pwyllgor Gorchmynion Interim yn gwneud mwy nag sy'n angenrheidiol, ac mae'n ystyried effaith unrhyw orchymyn ar y deintydd sydd wedi cofrestru yn broffesiynol ac yn ariannol.[4]

[3] *Sheikh v Cyngor Deintyddol Cyffredinol* [2007] Uchel Lys Cymru a Lloegr 2972 (Gweinyddol)

[4] *Houshian v Cyngor Meddygol Cyffredinol* [2012] Uchel Lys Cymru a Lloegr 3458 (Mainc y Frenhines) King J

## Atodiad 4

### Nodi pryderon

Gall y bwrdd iechyd gael ei hysbydu am bryderon mewn sawl ffordd, gan gynnwys drwy'r canlynol:

- Pryderon a godwyd gan aelodau eraill o'r tîm deintyddol, gweithwyr proffesiynol y GIG, darparwyr y tu allan i oriau, darparwyr gofal eilaidd, rheolwyr gofal iechyd a staff anghlinigol (gan gynnwys chwythu’r chwiban);

- Digwyddiadau difrifol neu batrymau o broblemau a nodwyd o ddigwyddiadau;

- Cwynion difrifol neu batrymau o broblemau a nodwyd o gwynion;

- Perfformiad sy'n cael ei adolygu yn erbyn cynlluniau datblygu personol, arfarniadau blynyddol, y cynllun sicrhau ansawdd;

- Data ar berfformiad ac ansawdd gofal sy'n cael eu monitro gan dîm ansawdd a diogelwch deintyddol y bwrdd iechyd;

- Gweithgareddau archwilio a gwella ansawdd eraill;

- Gwybodaeth gan gyrff rheoleiddio (yn enwedig AGIC/y Cyngor Deintyddol Cyffredinol);

- Gwybodaeth gan Gynghorwyr Clinigol gwasanaethau deintyddol y GIG;

- Gwasanaethau gwrth-dwyll;

- Gwybodaeth gan yr heddlu neu'r crwner;

- Dyfarniadau'r llys.

Gall monitro ymarfer yn effeithiol nodi pryderon yn gynnar a'i gwneud yn bosibl i broses gefnogol gael ei rhoi ar waith. Mae gan grŵp ansawdd a diogelwch deintyddol y bwrdd iechyd rôl i'w chwarae yn hyn o beth, a gall wneud y canlynol:

- Nodi arfer da i'w rannu;

- Adolygu'r amrywiaeth eang o wybodaeth sy'n dod i law am ddeiliaid contract y GIG a phractisau;

- Nodi practisau neu ddeintyddion sy'n wynebu problemau a chytuno ar y camau y gellir eu cymryd i fynd i'r afael â hyn. Gall byrddau iechyd gytuno ar "drothwyon ansawdd" sy'n helpu i nodi bod practis yn wynebu anhawster;

- Annog deintyddion a all fod yn wynebu anhawster i geisio cyngor yn gynnar gan Gymdeithas y Deintyddion Proffesiynol, y Pwyllgor Deintyddol Lleol, Tiwtor Gwella Ansawdd y practis neu sefydliad amddiffyn;

- Ceisio sicrwydd bod pryderon yn cael sylw prydlon a theg;


- Helpu i nodi gwelliannau a llywio'r gwaith o ddatblygu unrhyw gynllun gwella;

- Casglu gwybodaeth am "dueddiadau a themâu" pryderon a fydd yn helpu i nodi ffactorau risg, ategu dysgu a dwyn y rhain i sylw'r Cyfarwyddwr Meddygol/Cyfarwyddwr Meddygol Cyswllt/Cyfarwyddwr Deintyddol Cyswllt.

**Atodiad 5**

**Siart lif y broses i'w dilyn pan fydd pryder wedi cael ei asesu a'i nodi'n un y mae angen ymchwilio iddo**

Gall y pryder fod wedi cael ei godi'n uniongyrchol gyda'r bwrdd iechyd neu drwy'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.



**Atodiad 6**

**Rôl y Gwasanaeth Asesu Clinigol Cenedlaethol**

*Mae'r Gwasanaeth wedi darparu'r wybodaeth isod.*

NCAS works to resolve concerns about the practice of dentists, doctors and pharmacists. Our aim is to work with all parties to clarify the concerns, understand what is leading to them and make recommendations to help the practitioner to deliver a high quality and safe service. We respond to calls about any aspect of individual or team practice, even where it is not yet clear whether there is evidence of poor practice. We can provide advice on long-standing and complex cases. We also provide advice on developing local clinical governance procedures. We provide expert advice and support, clinical assessment and training to the NHS and other healthcare partners.

Most requests come from the health board that employs or contracts with the practitioner about whom there are concerns. Contact is usually made by a senior member of staff, for example, the Medical Director, Director of HR or Head of Primary Care. However, we can receive initial contact from any representative of the health board, providing they have the delegated authority to act on behalf of that body. We are keen that concerns about practice are identified and resolved early, to prevent harm to patients and increase the opportunity for the individual to return to safe practice. Our advice is therefore to contact us as early as possible and to provide us with as much information as you can about the case. We can discuss a case without the need for you to identify the individual practitioner in the first instance.

NCAS deals with a wide variety of concerns about practice. Our experience indicates that a third of cases contain a range of concerns including behaviour and health - behaviour 58%, clinical 58% and health 21%. However, concerns are rarely seen in isolation and are often present as a variety of concerns across domains of practice, health and behaviour.